

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2020**

**PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN
YNG NGHYMURU**

Aberystwyth yw Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2020 gan *The Times / The Sunday Times Good University Guide*.

Mae'r wobwr ddiweddaraf hon yn golygu bod y Brifysgol wedi cael ei chynabod gan *The Times / The Sunday Times Good University Guide* am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Ym mis Medi 2018 enwyd Aberystwyth yn Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu, ac felly'r brifysgol gyntaf i dderbyn y wobwr ddwy flynedd yn olynol.

Cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf *The Times / The Sunday Times Good University Guide*, ar ddydd Sul 22 Medi 2019 lle gwelwyd Aberystwyth yn ail yn y DU am Brofiad Myfyrwyr ac am Ansawdd y Dysgu.

Mae Aberystwyth wedi dringo tri lle i safle 45,

gan atgyfnerthu ei statws ymhlith 50 prifysgol orau y DU.

Dywedodd Alastair McCall, Golygydd *The Times / Sunday Times Good University Guide*: "Wedi iddi ennill gwobr Prifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu ddwy flynedd yn olynol, mae Aberystwyth eleni yn cipio'r wobwr genedlaethol yng Nghymru. Ni fydd hyn yn syndod i'w myfyrwyr, sydd o'r farn taw hi yw'r orau yng Nghymru am ansawdd y dysgu a'r profiad myfyrwyr ehangach ers pedair blynedd. Hi oedd y dewis amlwg i fod yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2020."

Parhau ar dudalen 2

4 TedX Aberystwyth



7 Y Brifysgol yn dathlu rhagoriaeth wrth addysgu



10 Yn ogystal â fy ngwaith bob dydd...



13 Tyrchu i'r archifau



16 Mannau gwefru e-feiciau a llochesi i feiciau



Cyhoeddir *Newyddion ABER* gan y Tim Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth.
Ffôn: 01970 622578

E-bost: communications@aber.ac.uk
Bydd y rhifyn nesaf o *Newyddion Aber* ar gael ym **mis Chwefror 2020**. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **13 Ionawr**.

Parhau o dudalen 1

"Mae'r brifysgol wedi dringo tua 50 lle yn ein tablau cynghrair y DU yn y blynyddoedd diweddar, trawsnewidiad sy'n cael ei atgyfnerthu gan raglen gwariant cyfalaf uchelgeisiol. Daeth canmoliaeth yn sgil ennill yr Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniad Myfyrwyr am y modd mae ei rhaglenni gradd yn herio myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial. Mae adnewyddu'r llyfrgell a Chanolfan y Celfyddydau wedi helpu i sicrhau bod cyfleusterau myfyrwyr o'r radd flaenaf, ac mae gwelliannau pellach, megis y Campws Arloesi a Menter newydd, ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf, a ddylai sicrhau anrhydeddau pellach i'r brifysgol yn y dyfodol."

Meddai'r Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Dyma newyddion gwych ac rwy'n falch iawn bod gwaith caled cydweithwyr ar draws y Brifysgol bellach wedi'i gydnabod am dair blynedd yn olynol. Mae'r cyhoeddiad am Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru ar ôl bod yn Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu am ddwy flynedd yn olynol yn gamp yn ei hun, a hoffwn ddiolch i bawb ym Mhrifysgol Aberystwyth am eu cyfraniad at sicrhau hyn. Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd, mae'r gwaith i ddatblygu a chyfoethogi profiad myfyrwyr yn parhau wrth i ni alluogi'n myfyrwyr i ddatgloi eu potensial fel dysgwyr annibynnol yn ogystal ag elwa ar bob agwedd o fywyd prifysgol. Fel Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru gallwn adeiladu ar ein treftadaeth

gyfoethog a'n hymrwymiad cenedlaethol at addysg wrth i ni goesawu myfyrwyr a staff o Gymru, y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd."

Dywedodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, Dhanjeet Ramnatsing: "Nid yw'n syndod o gwbl i'n myfyrwyr bod Prifysgol Aberystwyth wedi'i chydabod fel Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2020. Rydym wedi profi trawsnewidiad amlwg yn Aberystwyth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi gweithio'n galed i gyflawni hyn ac mae'n dangos yn glir bod ein Prifysgol yn symud i gyfeiriad cadarnhaol. Rydym yn gobeithio y bydd y Brifysgol yn parhau i gael ei chydabod yn y dyfodol; gall ddarpar fyfyrwyr edrych ymlaen at brosiectau fel yr Hen Goleg yn ogystal â chyfleusterau a llety newydd Pantycelyn, a bydd rhain yn gwella profiad y myfyrwyr ac yn sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gael ei chydabod yn haeddiannol fel un o sefydliadau gorau Addysg Uwch y wlad."

Ar ôl derbyn Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (FfRhA), fe ddaeth Aberystwyth i'r brig o blith prifysgolion Cymru a Lloegr am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr (ACF) yng Ngorffennaf 2019.

I grynhoi'r llwyddiannau, Aberystwyth oedd y brifysgol orau yng Nghymru am foddhad myfyrwyr am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.



Ffit Rhwydd

Hydref 2019

DYDD LLUN	
AMSER	DOSBARTH
09.15 - 10.00	Seiclo Gallu Cymysg
12.00 - 13.00	Seiclo Sportif
12.00 - 12.45	Ioga Gogerddan
12.15 - 13.00	HIIT
13.00 - 13.45	Erobeg
14.00 - 15.30	Ragarweiniad i Ioga
17.00 - 19.00	Ioga Ashtanga
17.30 - 18.30	Erogamu
17.45 - 18.30	Seiclo Gallu Cymysg
18.30 - 19.30	Pilates
19.00 - 20.30	Ioga Hatha

DYDD MAWRTH	
AMSER	DOSBARTH
07.15 - 08.00	Pilates
12.15 - 13.00	Pilates Gofal Cefn
12.15 - 13.00	Seiclo Uwch
13.10 - 13.55	Nerth Craidd
13.15 - 14.00	Seiclo Gallu Cymysg
14.00 - 15.00	Ioga Ysgafn
17.30 - 18.30	Ymarfer Cylchred
17.30 - 18.30	Erogamu
18.30 - 19.30	Bodyfit
17.45 - 18.30	TriSbin
18.35 - 19.20	Seiclo Gallu Cymysg
18.30 - 19.30	Zumba
19.00 - 20.00	Nofo Triathlon

DYDD MERCHER	
AMSER	DOSBARTH
07.30 - 08.15	Seiclo Gallu Cymysg
09.15 - 10.00	Seiclo Gallu Cymysg
09.30 - 10.15	*Ymarfer Rhiant a Phlentyn
12.15 - 13.00	Seiclo Gallu Cymysg
12.15 - 13.00	Bodyfit
13.10 - 13.55	Pilates ar y Bêl
17.30 - 18.15	HIIT
17.30 - 18.15	Ymarfer Dumbbell
18.15 - 19.15	Pilates
18.30 - 19.15	Acwafit
18.30 - 19.30	Nerth Craidd
19.30 - 20.30	Ioga i Bawb

DYDD IAU	
AMSER	DOSBARTH
07.15 - 08.00	Nofo Triathlon
07.30 - 08.30	Ioga i Bawb
12.15 - 13.00	Nerth Craidd
12.15 - 13.15	Seiclo Uwch
13.10 - 13.55	Pilates
17.30 - 18.30	Ymarfer Cylchred
17.30 - 18.30	Erobeg
17.45 - 18.30	Seiclo Gallu Cymysg
18.30 - 19.30	Zumba
18.30 - 19.30	Bodyfit

DYDD GWENER	
AMSER	DOSBARTH
07.30 - 08.15	Seiclo Gallu Cymysg
10.30 - 11.15	Ymarfer Acwa
12.15 - 13.00	Ymarfer Cylchred
13.10 - 13.55	Ymarfer Dumbbell
16.00 - 17.00	Ioga Nerthol
17.00 - 18.30	Ioga i Bawb
17.30 - 18.15	HIIT
17.45 - 18.30	Seiclo Gallu Cymysg
18.30 - 19.30	Zumba

DYDD SADWRN	
AMSER	DOSBARTH
09.05 - 09.50	Seiclo Gallu Cymysg
09.30 - 10.30	Bodyfit
10.45 - 11.45	Pilates

DYDD SUL	
AMSER	DOSBARTH
09.05 - 09.50	Seiclo Gallu Cymysg
11.00 - 12.00	Zumba

@AberSport
f t i

Mae eich aelodaeth yn cynnwys pob dosbarth, y gampfeydd, y pwll a'r wal dringo

Croeso i Bawb
Talu phob tro

45 munud	£3.60
60 munud	£4.80
90 munud	£7.10
Seiclo	£4.10

Bydd yr holl ddsosbarthiadau yn gorfennu 5 munud cyn yr amser a nodwyd i ganiatáu amser i newid drosodd rhwng sesiynau

* Nid yn ystod gwyliau'r ysgol

I weld pwys sy'n dysgu sesiwn ac i gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gweddiellennau



Ffôn: 01970 622280
E-bost: sports@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/sportscentre/classes

Mae'r tîm rheoli'n cadw'r hawl i newid y rhaglen ar fyr rybudd

Am wybodaeth cyfredol, ewch at y wefan: www.aber.ac.uk/sportscentre/classes/timetable

Colofn yr Is-Ganghellor



Pa well ffordd o ddechrau'r flwyddyn academiaidd neuydd na chlywed y neuwyddion gwych inni gael ein henwi yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru yn *The Times and Sunday Times Good University Guide 2020*. Wrth inni groesawu

ein myfyrwyr sy'n dychwelyd atom yn ôl ac estyn croeso i'n myfyrwyr neuydd, mae'r neuwyddion yma yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad staff i gyfoethogi'r profiad eithriadol a gynigir i fyfyrwyr yma yn Aberystwyth.

Fel y gwyddoch, mae'r anrhydedd hwn yn dilyn dwy flynedd yn olynol fel Prifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu *The Times / The Sunday Times* yn 2018 a 2019, sy'n gamp yn ei hun gan nad oes yr un brifysgol arall wedi llwyddo i wneud hyn. Gallwn wir ymfalchïo yn y llwyddiant hwn ac rwy'n diolch i bob un ohonoch am eich cyfraniad.

Wrth ein henwi yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru, dywedodd Alastair McCall, Golygydd *The Times / Sunday Times Good University Guide*, bod llwyddiant y Brifysgol yn y tablau cynghrair yn "drawsnewidiad sy'n cael ei atgyfnerthu gan raglen gwariant cyfalaf uchelgeisiol." Roeddwn yn arbennig o falch o weld y datblygiadau ar un o'n prosiectau gwariant cyfalaf yn ddiweddar wrth ymweld â safle Pantycelyn, yng nghwmni nifer o gyd-weithwyr, aelodau'r Cyngor, cynrychiolwyr Ffrindiau Pantycelyn, yr Aelod Cynulliad Lleol, Elin Jones a'r AS lleol, Ben Lake, a chael ein tywys o amgylch yr adeilad sy'n prysur drawsnewid. Roedd hi'n gyffrous iawn i weld bod

yr ystafelloedd ar y llawr uchaf yn dechrau dod at ei gilydd, a chlywed bod y prosiect yn cadw at yr amserlen o ddarparu llety o'r radd uchaf erbyn yr adeg yma y flwyddyn nesaf.

Yn yr un modd, bydd gyrwyr ar yr A4159 yn sylwi ar y cynnydd amlwg sydd i'w weld ar Gampws Arloesi a Menter Aberystwyth. Mae'r strwythur dur ar gyfer ail gam y prosiect bellach yn tyfu o ddydd i ddydd, ac mae'r grisiau a sylfeini'r byrddau ar y llawr cyntaf bellach yn amlwg yn yr adeilad a fydd yn gartref i Ganolfan Bwyd y Dyfodol, y Ganolfan Ddadansoddi Uwch a'r Hwb Arloesi.

Ac ar Gampws Penglais yn nes ymlaen yn y tymor, mi fyddwn yn ailagor ystafell Iris de Freitas yn Llyfrgell Hugh Owen ar ôl iddi cael ei adnewyddu.

Yn ogystal ag ymfalchïo yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rwy'n edrych ymlaen at ystyried effaith ein sefydliad ar Gymru a'r byd ehangach dros flynyddoedd lawer yn ein dathliadau blynyddol ar Ddiwrnod y Sylfaenwyr. Bydd y digwyddiad ar 11 Hydref yn tynnu ynghyd gynrychiolwyr o'r Brifysgol, myfyrwyr, alumni, a'r gymuned leol, i ddathlu'r diwrnod yr agorodd yr Hen Goleg ei ddrysau i fyfyrwyr am y tro cyntaf yn 1872.

Wrth inni groesawu ein myfyrwyr yn ôl a chyflwyno carfan neuydd o las-fyfyrwyr i'n tref hardd, hoffwn ddiolch ichi unwaith yn rhagor am eich gwaith caled a'ch cefnogaeth.

Yr Athro Elizabeth Treasure Is-Ganghellor

Llun artist o ystafell Iris de Freitas ar ei neuydd wedd



Cydnabod effaith ymchwil ym meysydd iechyd byd-eang a physgodfeydd cynaliadwy

Dyfarwyd Gwobrau Prifysgol Aberystwyth 2019 am Effaith Eithriadol i'r Athro Colin McInnes o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Athro Paul Shaw o Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

Cyflwynwyd y gwobrau yn ystod yr Wythnos Raddio i gydnabod effaith gadarnhaol gwaith ymchwil, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Derbyniodd yr Athro Colin McInnes Wobr Effaith Eithriadol mewn Ymchwil yn y Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau a'r Dyniaethau am ei waith ymchwil sydd wedi arwain at ddatblygu fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer iechyd sifiliaid drwy gydweithredu â sefydliadau milwrol pan geir achosion torfol o salwch. Bydd y gwaith hwn yn golygu y byddwn mewn gwell sefyllfa o lawer wrth ymateb i achosion torfol o salwch ar draws y byd.

Cyflwynwyd Gwobr Effaith Eithriadol mewn Ymchwil Gwyddonol i'r Athro Paul Shaw am ei waith yn defnyddio dulliau genynnol i gynorthwyo dulliau effeithiol a chynaliadwy o reoli pysgodfeydd. Mae ei waith ymchwil, sy'n canolbwyntio ar ddiffiniadau genynnol y strwythurau stoc mewn rhywogaethau sy'n cael eu pysgota drwy'r byd, wedi cyfrannu at dulliau mwy cywir, ac felly'n fwy cynaliadwy, o bysgota stociau gwyllt, sy'n cyfrannu at ddiogelu cyflenwadau bwyd yn lleol ac yn fyd-eang ac at ddatblygiadau masnachol, ac ar yr un pryd yn helpu i gadw bioamrywiaeth a diogelu poblogaethau a rhywogaethau sydd dan fygythiad.

Dywedodd yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure: "Mae Gwobrau Effaith Eithriadol Prifysgol Aberystwyth, a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn 2018, yn cydnabod cyflawniadau'r staff sy'n dangos yn eglur eu bod yn defnyddio eu hymchwil er lles y gymdeithas ehangach. Llonyfarchiadau i'r enillwyr eleni sy'n gweithio ar ddau brosiect ymchwil gwahanol iawn i'w gilydd, a'r ddau yn dangos y potensial sydd gan y Brifysgol i ysgogi newid cadarnhaol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol."



Uchod: Yr Athro Colin McInnes yn derbyn y Wobr am Effaith Eithriadol mewn Ymchwil i'r Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau a'r Dyniaethau gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor. Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

Isod: Yr Athro Paul Shaw yn derbyn y Wobr am Effaith Eithriadol mewn Ymchwil Gwyddonol gan Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadrn y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol



TEDxAberystwyth

Bydd TEDxAberystwyth, a gynhelir ddydd Sadwrn 26 Hydref 2019 yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, yn cynnwys sgysiau pryfoclyd â syniadau gwreiddiol ac ysgogol o fyd y celfyddydau, gwyddoniaeth, y cyfryngau, chwaraeon, yr amgylchedd, cymdeithas, a thu hwnt.

Trefnir y digwyddiad blynyddol gan grŵp o wirfoddolwyr dan arweiniad Clive King, ac mae'r tocynnau eisoes wedi gwerthu allan.

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae'r digwyddiad yn llwyfan i siaradwyr rhagorol o ardal Aberystwyth, ynghyd â rhai a chanddynt gysylltiadau blaenorol â'r ardal, i rannu eu syniadau gwreiddiol.

Thema TEDxAberystwyth eleni yw "Dianc rhag twll du / Escaping from a black hole", a ysbrydolwyd gan lun newydd o dwll du a dynnwyd yn gynharach eleni. Fodd bynnag, bydd pob un o'r perfformwyr a ddewiswyd yn cyflwyno sgysiau amlddisgyblaethol ar bynciau yn amrywio o ddad-ddofi yng Nghymru, mynd o amgylch Ewrop yng ngheir dieithriad, rôl y rheiny a anwyd rhwng 1981 a 1996 (Millennials) mewn cymdeithas a defnydd Bitcoin o drydan.

Daw TEDx ag ysbryd cenhadaeth TED, sef 'syniadau sy'n werth eu rhannu' i gymunedau ledled y byd, drwy raglen o ddigwyddiadau lleol, dielw a drefnir yn unigol, ac sy'n cynnig profiad tebyg i'r sgysiau amlddisgyblaethol gan siaradwyr ysbrydoledig a gynhelir gan TED.



Dr Maire Gorman o'r Adran Ffiseg yn rhoi cyflwyniad yn TEDxAberystwyth 2018

Mudiad dielw yw TED a chanddo agenda i wneud syniadau gwych yn hygrch ac ennyn trafodaeth. Cychwynnodd fel cynhadledd pedwar diwrnod yng Nghalifornia 30 mlynedd yn ôl, a datblygodd i gefnogi ei genhadaeth â mentrau lluosog. Mae'r ddwy Gynhadledd TED a gynhelir bob blwyddyn yn gwahodd prif feddylwyr ac ymarferwyr y byd i siarad am 18 munud neu lai. Mae llawer o'r sgysiau hyn ar gael, am ddim, ar TED.com.

Roedd digwyddiadau TEDxAberystwyth a gynhaliwyd yn 2017 a 2018 yn hynod lwyddiannus, gan werthu pob tocyn.

I wyllo fideos o'r digwyddiadau blaenorol, ewch i <https://tedxaberystwyth.com/>.

Twitter: @tedxaberystwyth Facebook: TEDxAberystwyth

Rhodd llyfrau ffotograffiaeth

Yn ddiweddar, derbyniodd Llyfrgell Hugh Owen gasgliad o lyfrau ffotograffiaeth gan deulu'r diweddar John Harris.

Yn ddiweddar, derbyniodd Llyfrgell Hugh Owen gasgliad o lyfrau ffotograffiaeth gan deulu'r diweddar John Harris.

Sicrhodd Tîm Darganfod Adnoddau Gwasanaethau Gwybodaeth gymorth Rheolwr Cofnodion y Brifysgol, Julie Archer, i ddod o hyd i gofnod myfyriwr John er mwyn ei rannu â'i wyres, Sarah. Roedd cofnod John yn dangos iddo ennill gradd Cemeg o Aberystwyth yn 1952.

Yn yr un modd, gallodd y tîm rannu cofnod myfyriwr mam-gu Sarah, Carol Cox, a gwrddodd â John yn Aber. Mae ei chofnod yn dangos iddi dreulio blwyddyn yn Ffrainc rhwng 1951 a 1952 ac ennill gradd mewn Ffrangeg yn 1953.

Fe rannodd Sarah lluniau graddio ei mam-gu a'i thad-cu.

Rydym wrthi'n catalogio casgliad helaeth John o lyfrau ffotograffiaeth er mwyn eu canfod ar Primo, a bydd llawer ohonynt yn ymddangos ar fodiwlau ffotograffiaeth a hanes celf yr Ysgol Gelf.



Chwith: Carol Cox ar ei diwrnod graddio ym 1953

Isod: Cofnod myfyriwr John Harries

SUBJECTS	T.D.	GRADE	EXAMINATION				Result	REMARKS
			1st Term	2nd Term	Sessional	Supplementary		
1949-50. Economics		S	III			P	P	
Chemistry		S	III			P	P	
Pure Maths.		S	IV			P	P	
1950-1951. Physics		S	III			P	P	
Chemistry		HI.	I			P	P	
1951-1952. Chemistry		H				P	P	
Atomistry						P	P	
1952-1953. Professional Training Pl.		GRADUATED						
		B.Sc. 1952						
		UNIV. DIPLOMA IN EDUCATION. CLASS 2						
		MIN. OF EDUC. TEACHERS CERT. 1953.						

Rhodd hael gan gyn-fyfyriwr yn ariannu adnodd newydd gwerthfawr

Mae gan Lyfrgell y Brifysgol bellach fynediad at adnodd ar-lein newydd gwych, diolch i haelioni cyn-fyfyriwr o Aber.

Mae rhodd o dros £4,000 gan gyn-fyfyriwr a raddiodd mewn Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith (1979) wedi galluogi'r llyfrgell i brynu mynediad at adnodd *Women in The National Archives* oddi wrth y cyhoeddwr Adam Matthew.

Mae'r gronfa ddata o ddogfennau ffynonellau cynradd gwreiddiol yn trafod yr ymgyrch am y bleidlais i fenywod ym Mhrydain, 1903-1928, a rhoi'r hawl i fenywod bleidleisio yn y tiriogaethau trefedigaethol, 1930-1962. Mae ychwanegu pedair ffeil sylweddol o'r Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â'r bleidlais i fenywod a chronoleg estynedig yn atgyfnerthu'r casgliad ymhellach.

Ar ben hyn, ceir teclyn canfod sy'n galluogi ymchwilyr i ddod o hyd yn gyflym i leoliad dogfennau yn yr Archifau Cenedlaethol, sy'n ymwneud â menywod, ac sy'n gallu chwilio drwy bob un o'r dosbarthiadau yn yr archif.

Dywedodd Martin Taylor, Rheolwr Casgliadau, Adnoddau a Chyfleusterau Gwasanaethau Gwybodaeth: "Pan gefais alwad

o'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn egluro eu bod wedi derbyn rhodd gan gyn-fyfyriwr y dymunai ei rhoi i gasgliad gwleidyddiaeth y llyfrgell, roeddwn wrth fy modd, yn amlwg. Trafodwyd adnodd priodol posibl ar gyfer y rhodd hael hon. Roeddwn am gael rhywbeth a fyddai'n cyfateb i amodau'r rhoddwr, yn cyfoethogi ein casgliad, ac yn adnodd parhaol a fyddai o fudd i fyfyrwyr a'r gymuned leol. Ar ôl ystyried nifer o bosibiliadau, daethom o hyd i adnodd ar-lein *Women in The National Archives* a oedd yn ticio pob blwch."

I gael mynediad at yr adnodd newydd hwn, chwiliwch am 'Women in The National Archives' yn Primo.

Gall y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni helpu staff sydd am gysylltu â chyn-fyfyriwr. Rydym hefyd yn codi arian gan gyn-fyfyriwr a chefnogwyr tuag at Gronfa Aber (Cymorth i Fyfyriwr), Datblygiadau Ymchwil ac Academaidd, ac Apêl yr Hen Goleg.

I gael rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni a'r gwaith y mae'n ei wneud, yn ogystal â dysgu sut gallech chi elwa o nawdd Cronfa Aber ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â myfyriwr, cysylltwch â Hayley Goddard ar hvg@aber.ac.uk

Cymorth i ddatblygu dysgu ac addysgu

Mae'r cymorth i ddatblygu dysgu ac addysgu, gan gynnwys e-ddysgu, wedi newid dros yr haf.

Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (UDDA) newydd yn dod â gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (GDSYA) a'r Grŵp E-ddysgu ynghyd.



Mae'r UDDA wedi'i lleoli yn Gwasanaethau Gwybodaeth ac fe'i rheolir gan Kate Wright. Aelodau eraill o staff yr uned yw Ian Archer, Annette Edwards, Rob Francis, Lauren Harvey, Rhian Harrington, Mary Jacob, a James Woolley.

Byddwn yn parhau i gynnal y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU), Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) a chynlluniau cymrodoriaeth AdvanceHE. Byddwn yn datblygu a chefnogi'r defnydd o offer e-ddysgu megis Blackboard, Turnitin a Panopto. Byddwn hefyd yn cyfrannu at gynorthwyo datblygiad ymchwilwyr drwy raglen Ymchwilwyr Aberystwyth.

Mae gennym raglen lawn o gyrsiau hyfforddi i gynorthwyo dysgu, addysgu ac ymchwil yn y Brifysgol. Cewch fanylion gan gynnwys sut i archebu lle ar https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php.

Ac, wrth gwrs, byddwn yn parhau i drefnu cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol y Brifysgol, cynadleddau bach a Fforymau Academi.

Yn newydd eleni ceir rhaglen i annog staff PA i wneud cais am gynlluniau AdvanceHE, sef y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol (CCAC) a Gwobr Gydwethredol am Ragoriaeth mewn Addysgu (GGRA). Rydym yn awyddus i weithio gyda staff sydd â diddordeb mewn ymgeisio am y naill wobwr neu'r llall.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Athro Tim Woods i gynorthwyo'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd. Byddwn yn chwarae rhan benodol yn y llinyn dysgu gweithredol. Gan ddechrau ym mis Medi, mae gennym amrywiaeth eang o gyrsiau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ddysgu gweithredol.

Mae staff yn yr UDDA yn barod iawn i weithio ag unigolion yn ogystal â grwpiau bach ac adrannau i ymchwilio i faterion yn ymwneud â dysgu ac addysgu. Gallwn weithio gyda chi i ddatblygu eich dysgu, cyflwyno syniadau, technegau ac offer newydd, ac aildatblygu modiwlau a chynlluniau.

Os hoffech wybod mwy am yr UDDA ewch i www.aber.ac.uk/cy/lteu neu e-bostiwch ni ar lteu@aber.ac.uk

Kate Wright

Rheolwr yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu

Y Brifysgol yn dathlu rhagoriaeth wrth addysgu

Alison Piere, Tiwtor Celf Dysgu Gydol Oes, sydd wedi ennill Gwobr Cwrs Nodedig Prifysgol Aberystwyth 2018-19 am ei modiwl dysgu o bell Hanes Celf, *Figuratively Speaking: The History of Western Figurative Sculpture*.

Nod y Gwobrau Cwrs Nodedig, sydd ar eu chweched flwyddyn bellach, yw cydnabod yr arferion dysgu ac addysgu gorau oll ymhob rhan o'r Brifysgol.

Cafodd y modiwl buddugol ei ganmol am ei agwedd arloesol tuag at gyd-gynllunio â'r myfyrwyr, y profiad dysgu 3 dimensiwn ar gyfer myfyrwyr nad ydynt o bosibl yn astudio ar y campws, ac am sicrhau bod pob agwedd ar y modiwl yn gwbl hygyrch i ddysgwyr.

Yn ogystal â'r enillydd, cafodd y modiwlau canlynol Ganmoliaeth Uchel:

- Tîm Dysgu o Bell, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig - *Research Methods*
- Dr Stephen Chapman, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig - *The Future of Packaging*
- Dr Alexandros Koutsoukis, Gwleidyddiaeth Ryngwladol - *Behind the Headlines*
- Dr Jennifer Wood, Ieithoedd Modern - *Sbaeneg (i Ddechreuwr)*

Meddai Dr James Woolley o'r Uned Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu: "Mae ystod amrywiol yr arddulliau dysgu ac addysgu a welwyd yn y ceisiadau am y Gwobrau eleni yn adlewyrchu'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud ledled y sefydliad, ac ehangder y dulliau dysgu ac addysgu a gynigir i fyfyrwyr, gan gynnwys Dysgu o Bell, Dysgu Gydol Oes, a modiwlau campws.

"Llongyfarchiadau i enillwyr eleni ac i'r rhai a gafodd glod uchel, bob un ohonynt yn dangos dirnadaeth gadarn o gyd-destun a gofynion y dysgwyr, yn ogystal ag agwedd arloesol tuag at gynllunio cwrs a defnydd ysbrydoledig o adnoddau i gyfoethogi'r dysgu, megis Blackboard."

Cyflwynwyd y gwobrau i'r enillwyr yn seremonïau graddio'r Brifysgol a gynhaliwyd rhwng 16 - 19 Gorffennaf 2019.

Isod: Alison Piere, Dysgu Gydol Oes yn derbyn tystysgrif y buddugwr yng Ngwobrau Cwrs Nodedig 2018-19 yn ystod Wythnos y Graddio 2019 gan yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure.



Cyflwynwch eich modiwl ar gyfer Gwobr Cwrs Nodedig y flwyddyn nesaf

Mae'r Uned Gwella Dysgu ac Addysgu yn falch o gyhoeddi mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y Wobr Cwrs Nodedig y flwyddyn nesaf fydd 31 Ionawr 2020.

I gefnogi staff sydd yn ystyried gwneud cais am y wobwr, bydd yr Uned Gwella Dysgu ac Addysgu yn cynnig sesiynau hyfforddi drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr. Gallwch archebu lle ar gyfer y sesiynau hyn drwy ein tudalen archebu cyrsiau. Fel arall, rydym yn fodlon ymgynghori a chynghori unigolion ynghylch gwella modiwlau.

Gofynnir i staff asesu eu modiwlau yn ôl pedwar prif faen prawf: Cynllun y Cwrs, Rhyngweithio a Chydweithio, Asesu, a Chymorth i Ddysgwyr. Gofynnir i ymgeiswyr hefyd gyflwyno naratif am nodweddion eithriadol eu modiwl a dangos sut mae'r modiwlau yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y wobwr.

Gobeithiwn ymestyn yr arferion nodedig a ddangoswyd gan ein henillwyr diweddar; roedd y modiwlau hyn yn dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o anghenion eu dysgwyr ac yn cynrychioli'r arferion addysgu amrywiol sydd ar gael i fyfyrwr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Defnyddiwyd un o'r modiwlau a gafodd gymeradwyaeth uchel y llynedd fel astudiaeth achos yng nghyfarfod Grŵp Defnyddwyr Blackboard Iwerddon. Ar ben hyn, mi wnaeth y bobl a oedd yn bresennol yn y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu ddiweddar elwa o gael yr enillwyr yn rhannu eu modiwlau a'u harferion addysgu nodedig gyda nhw.

I weld y modiwlau a enillodd y llynedd a lawrlwytho ffurflen gais, ewch i'n tudalennau gwe: www.aber.ac.uk/cy/is/it-services/elearning/blackboard/blackboard-exemplary-course-award. Os ydych yn ystyried gwneud cais am Wobr Cwrs Nodedig ac am holi ambell gwestiwn, anfonwch e-bost at elearning@aber.ac.uk.

Colofn UMAber

Rydym wedi bod yn brysur baratoi ar gyfer mewnlifiad o las-fyfywrwr i Aber eto eleni, ac rydym hefyd wedi bod wrthi'n recriwtio ar gyfer staff newydd i roi cymorth i'n tîm swyddogion myfyrwrwr am y flwyddyn. Mae un tîm yn benodol wedi gweld tipyn o newidiadau staffio dros fisoedd yr haf, gyda phob un o'r 3 swydd staff bellach wedi'u llenwi (neu wrthi'n recriwtio) gydag unigolion newydd yn barod i ddechrau yn eu rolau.

Mae'r tîm Cyfleoedd Myfyrwrwr yn gyfrifol am roi cymorth, galluogi a grymuso myfyrwrwr i ddatblygu a manteisio ar gyfoeth amrywiol o gyfleoedd allgyrsiol a fydd yn ychwanegu gwerth at brofiad myfyrwrwr, hyrwyddo cymorth ac integreiddiad cymunedol ar ran myfyrwrwr gan ddatblygu cyfeillgarwch, sgiliau ac atgofion a fydd yn para am oes.

Lucie Gwilt - Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwrwr

Hoffem groesawu (ac ailgyflwyno) Lucie fel Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwrwr newydd y tîm. Ymunodd Lucie, a raddiodd o Aber, â thîm UMAber fel ein Cydlynnydd Chwaraeon yn 2016, a bydd nawr yn ymgymryd â rôl y rheolwr.

Tom Morrisey - Cydlynnydd Datblygu Cymdeithasau

Yn ymuno â Lucie yn y tîm mae ein Cydlynnydd Datblygu Cymdeithasau newydd, Tom. Yn raddedig o Brifysgol Bangor, astudiodd Tom ei radd israddedig a gradd meistr integredig mewn Daearyddiaeth.

Swydd wag - Cydlynnydd Chwaraeon

Ar adeg ysgrifennu'r golofn hon, mae rôl y Cydlynnydd Chwaraeon yn cael ei hysbysebu, ynghyd â dwy swydd wag arall yn UMAber (Cynghorydd Myfyrwrwr a Chydlynnydd Derbynf a Chyllid). Gellir dod o hyd i wybodaeth drwy'r dudalen swyddi gwag: www.umaber.co.uk/ynghlynagaber/swyddi

Undebau Myfyrwrwr o Ansawdd

Yn dilyn blynyddoedd o drawsnewid a datblygu, roedd Undeb Myfyrwrwr Prifysgol Aberystwyth yn falch iawn o dderbyn Achrediad Undebau Myfyrwrwr o Ansawdd mewn seremoni yn San Steffan yng Ngorffennaf 2019.

Ar ôl gweithio i ddatblygu Undeb y Myfyrwrwr er mwyn sicrhau bod myfyrwrwr Aber yn caru bywyd myfyrwrwr, mae UMAber wedi bod yn gweithio tuag at yr achrediad fel dangosydd allweddol o lwyddiant strategol.

Darllenwch fwy yma: www.umaber.co.uk/news/article/umabersu/Undeb-Myfyrwrwr-Aberystwyth-yn-cael-ei-gydnabod-am-ragoriaeth-yn-San-Steffer

Eleri Wyn

Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu UMAber

Achrediad Undebau Myfyrwrwr o Ansawdd. O'r Chwith i'r Dde: Chris Parry (Cydlynnydd Llais Myfyrwrwr UMAber), Martin Dodd (Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Myfyrwrwr UMAber), Paul Bloomfield (AS), Erica Ramos (Is-Lywydd Datblygu Undeb UCM) a Dhanjeet Ramnatsing (Llywydd UMAber).



Golwg ar... y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd

Wrth i'r flwyddyn academiaidd newydd ddechrau, mae Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd y Brifysgol yn paratoui ddarparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, rhagweithiol a hygyrch i garfan newydd o fyfyrwyr Aber.

Cafodd **Newyddion** sgwrs â Caryl Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd, am y gwahanol ffyrdd y mae'r adran yn cefnogi ein myfyrwyr, cyn, yn ystod ac, weithiau ar ôl eu cyfnod yn y Brifysgol:



Disgrifwch waith y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd

Prysur, prysur, prysur! 'D oes dim diwrnodau sy'n ddfilas ac mae rhywbeth newydd i fynd i'r afael ag ef o hyd, boed hynny'n trafod safbwynt y Brifysgol ar anifeiliaid therapi gyda chydweithwyr neu gydweithio â phartneriaid allanol ar weithgareddau entrepreneuriaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn amlwg yn canolbwyntio ar ddatblygu myfyrwyr i gael pecyn sgiliau (boed yn sgiliau ariannol, lles, cyflogadwyedd neu reoli addasiadau rhesymol) fydd yn eu galluogi i reoli eu bywydau yn y brifysgol ac wedi hynny. Rydym yn gwneud hyn drwy gefnogaeth un-i-un, gweithdai a chyflwyniadau a thrwy gefnogi cyd-weithwyr a phartneriaid allanol i ryngweithio â myfyrwyr..

A yw natur y gefnogaeth mae'r adran yn ei chynnig wedi newid yn ddiweddar?

Mae gan fyfyrwyr, staff a chyrrff allanol wrth reswm, ddisgwyliadau uchel o'n gwasanaethau ac rydym felly'n troi'n fwyfwy at dechnoleg (apiau ac offerynnau eraill ar lein) er mwyn ychwanegu at yr hyn y gallwn ei gynnig. Er enghraifft, er mwyn helpu ein Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian i reoli'r galw am gefnogaeth wrth gyllidebu, cyflwynwyd Blackbullion, offeryn galluogrwydd ariannol ar-lein i fyfyrwyr, sydd wedi'i ariannu drwy haelioni ein cyn-fyfyrwyr.

Efallai y bydd yn swnio ychydig yn gawstyd ond yr hyn sydd heb newid yw ymroddiad staff yr adran i gefnogi myfyrwyr i wireddu eu potensial yn llwyr.

Beth yw'r prif beth y mae pobl yn ei dybio am waith y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd sy'n anghywir?

Nid yw unigolion yn deall bob tro fod pedwar gwasanaeth gwahanol iawn yn yr adran:

- Y Gwasanaeth Hygyrchedd
- Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian
- Y Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

Heb anghofio'r tîm gweinyddol canolog sy'n cefnogi'r uchod.

Mae pob Gwasanaeth yn ddarostyngedig i safonau/gofynion a osodir gan eu cymdeithas broffesiynol, sy'n darparu lefel uchel o sicrwydd ansawdd ac sydd, i ryw raddau, yn pennu'r hyn y gallwn/na allwn ei gynnig.



Y prif debygrwydd rhwng yr holl Wasanaethau yw fod pob un ohonynt yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau.

Camdybiaeth gyffredin arall yw mai gwasanaeth datrys argyfyngau yw Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr, ond nid yw hynny'n wir.

Pa ddatblygiadau newydd a welwyd yn ddiweddar?

Fel adran, rydym yn esblygu'n gyson wrth ymateb/fod ar y blaen i ddatblygiadau a newidiadau mewnol ac allanol.

Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn fwyfwy ynghlwm wrth gynorthwyo cyd-weithwyr sy'n cydlynu blynyddoedd mewn lleoliad integredig, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu sut orau i gyflwyno cynllun AberYmlaen.

Mae'r Gwasanaeth Hygyrchedd yn parhau i gefnogi datblygiad cynlluniau arweiniad gan gymheiriaid adrannau ac fel uwch dîm rheoli mae fy Mhenaethiaid Gwasanaeth a minnau hefyd wedi cyflwyno trefniadau partneriaid busnes ar gyfer cyfadranau unigol yn ddiweddar. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy systematig wrth ymateb i anghenion cyfadranau.

Beth sydd ar y gweill ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd?

Mae llawer o bethau cyffrous yn digwydd - faint o le sydd gennych i sôn am y cyfan?

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr wedi cyflwyno'r Wal Wen Fawr yn ddiweddar, sef *Big White Wall* (offeryn iechyd meddwl ar-lein i fyfyrwyr) ac, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, rydym hefyd wedi sicrhau cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddatblygu adnoddau iechyd meddwl a lles drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr.

Rydym hefyd yn cyflwyno apwyntiadau 20 munud, a gellir eu trefnu ar y diwrnod er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch.

Rwy'n gobeithio hefyd y byddwn yn gallu lleoli'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn yr un lle â'r tri gwasanaeth adrannol arall cyn bo hir.

Cyllid *Comic Relief* ar gyfer ymchwil i ddementia a cham-drin domestig

Y cysylltiad rhwng dementia a cham-drin domestig fydd canolbwynt astudiaeth newydd gan ymchwilwyr yng Nghanolfan Henoed, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol yn Adran y Gyfraith a Throsedddeg.

Bydd yr astudiaeth yn cael ei hariannu drwy grant £70,000 gan *Comic Relief* ac yn para 12 mis, a'r nod fydd ymchwilio i'r cyswllt rhwng cam-drin domestig a dementia mewn pobl sy'n 60 oed neu'n hŷn.

Bydd yr astudiaeth, a fydd yn rhan o'r prosiect ymchwil hirdymor Dewis Choice, yn ychwanegu at waith y ganolfan ar gam-drin pobl hŷn ar yr aelwyd, ac mae'n agor maes newydd o waith ymchwil sydd wedi'i esgeuluso i raddau helaeth.

Yn ôl y Gymdeithas Alzheimer, mae 850,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y DU ac mae disgwyl i'r ffigur godi i 1 miliwn erbyn 2025.

Dywedodd Sarah Wydall, Prif Ymchwilydd prosiect Dewis Choice: "Dyma brosiect cyffrous ac unigryw sy'n adeiladu ar ein hymchwil blaenorol gyda phobl hŷn. Rydym yn ymwybodol fod dementia'n gwneud pobl hŷn yn fwy bregus ac yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth economaidd, gorfforol, rywiol a seicolegol gan aelodau o'r teulu."

"Mae menywod yn fwyaf tebygol o gael diagnosis dementia na dynion, a hefyd o gael eu cam-drin ar yr aelwyd. Os y darparwyr gofal yw'r sawl sy'n gyfrifol am y gamdriniaeth, gall y menywod sy'n goroesi'r gamdriniaeth honno fod yn wynebu ymddygiad rheoli gorfodol ar yr un pryd â cheisio dod i delerau â'r diagnosis ac ymdopi â'r dirywiad yn ei galluoedd meddyliol. Yn aml mae'r cymorth maent yn ei gael wedi'i 'arwain' gan ganolbwyntio ar y dementia, sy'n ei gwneud hi'n hynod anodd datgelu unrhyw niwed bwriadol i weithwyr proffesiynol."

Dywedodd Elize Freeman, arweinydd gwasanaeth Dewis Choice: "Dyma'r prosiect ymchwil cyntaf yn y DU i edrych ar y mater yma ac adeiladu tîm arbenigol o gefnogaeth i'r unigolyn a'r teulu, lle bo'n ddiogel i wneud hynny. Bydd y cyllid yn gymorth i ddatblygu canllawiau newydd ar ddiogelwch a gwella ansawdd bywyd yn y cyd-destun hwn, ac yn cynnig gwell dealltwriaeth am ymchwil ym maes dementia a cham-drin domestig."

Bydd y prosiect yn cynnal gweithdai hyfforddi ar 'ddeal dementia' mewn cymunedau lleol er mwyn cyfeirio pobl at yr astudiaeth.

Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei ddarparu am gynnal perthynas iach ac ymdopi, er mwyn sicrhau bod gan bobl y sgiliau i adnabod ac ymateb i achosion lle mae cham-drin yn digwydd ar aelwydydd lle mae gan rywun ddementia.

Ceir mwy o wybodaeth am brosiect Dewis Choice ar-lein <http://dewis.aber.ac.uk> neu ar Twitter @choiceolderppl.



Llun: Aelodau o dîm Dewis Choice (o'r chwith i'r dde), y rhes flaen: Elize Freeman, Rebecca Zerk, Sarah Wydall, Jose Owen; y rhes gefn: Cara Fisher, Christopher Neville, David Cowsill, Tom Chapman a Ruth Jenkins



Yn ogystal â fy ngwaith bob dydd...

Mae Mike Smith, Rheolwr Caffael y Brifysgol, yn rheoli gwariant y Brifysgol gyda chyflenwyr allanol, yn cynnwys dod o hyd i gyflenwyr, delio â gwaith tendro, cytundebau, a rheoli cyflenwyr.

Ond, yn ogystal â'i waith bob dydd mae Mike yn gwirfoddoli drwy feicio modur a chodi arian gyda Beiciau Gwaed Cymru. Cafodd **Newyddion** sgwrs gydag ef am ei brofiadau:

Beth mae Beiciau Gwaed Cymru yn ei wneud?

Mae Beiciau Gwaed Cymru yn elusen yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth cludo yn rhad ac am ddim i'r GIG, gan gludo cyflenwadau o waed, plasma, dogfennau ac eitemau eraill ar hyd a lled Cymru. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac, yng Ngheredigion, yn gweithredu gyda'r nos yn ystod yr wythnos a phob awr o'r dydd ar y penwythnos.

Gellir derbyn galwadau ar unrhyw adeg yn ystod oriau gwaith y gwasanaeth a gall weithiau olygu teithiau cyfnewid sy'n cysylltu beicwyr modur ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd GIG er mwyn cludo cynnyrch neu samplau meddygol ar frys. Mae pob ardal feic gwaed yn cydweithio yn ôl yr angen, gan gysylltu gwasanaethau er mwyn gwneud siwrneiau hwy yng Nghymru ac, o bryd i'w gilydd, ar draws y ffin i Loegr.

Yn Aberystwyth, cefnogir teithiau cyfnewid yn ogystal â'r gofyniad gwasanaeth arferol, sef cludo nwyddau, cofnodion a samplau rhwng ysbytai yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Ni fyddwn yn defnyddio golau glas nac yn torri terfynau cyflymder. Ond mi rydym yn cynnig gwasanaeth arbennig o hyblyg, yn rhad ac am ddim, i'r GIG, sydd hefyd o fudd i'r amgylchedd oherwydd allyriadau is a chyfraniad hyfyw at leihau tagfeydd traffig.

Pam gwnaethoch chi ymddiddori mewn gwirfoddoli gyda Beiciau Gwaed Cymru?

Rwy'n ymddiddori mewn beiciau modur ers pan oeddwn yn fy ardegeu. Roeddwn yn teimlo bod cyfuno'r cariad gydol oes

hwn â rhoi rhywbeth yn ôl i'r GIG yn gyfuniad perffaith. Mae beiciau modur yn cael enw drwg yn y wasg, weithiau; mae'n braf gallu helpu rhywfaint i gywiro'r cam hwnnw.

Sut beth yw'r hyfforddiant?

Roeddwn eisoes wedi ennill cymhwyster uwch ar gyfer beicwyr modur, felly roedd angen darbwyllo swyddog traffig beiciau modur yr heddlu (wedi ymddeol) fy mod i wedi cyrraedd safon dda ac yn ddiogel wrth deithio ar gefn gwahanol feiciau modur.

Rwyf hefyd yn cwblhau Ymarfer Gweithgynhyrchu Da bob blwyddyn sy'n sicrhau fy mod i'n diweddarau fy ngwybodaeth o weithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer cludo nwyddau peryglus.

Mae rhaglen gynhwysfawr ar gyfer hyfforddi rheolwr ar gael yn ogystal.

Beth yw'r uchafbwyntiau?

Gwybod fy mod i'n rhan o dîm sy'n gwneud gwahaniaeth; efallai'n helpu i achub bywyd, cynnig cysur neu leihau poen rhywun sy'n dioddef.

Rwy'n cael teithio ar gefn gwahanol feiciau modur - sy'n bleser bob amser!

Beth yw'r isafbwyntiau?

Ein tywydd yng Nghymru!

Beth yw'r ymrwymiad?

Gwirfoddoli ar gyfer shifftiau drwy gydol y flwyddyn yn ogystal ag ysgwyd tuniau casglu arian mewn digwyddiadau lleol a rhanbarthol, neu y tu allan i archfarchnadoedd. Unrhyw le y gofynnir imi fod i helpu'r GIG a'r grŵp.

Ond, tîm yw Beiciau Gwaed a heb gyfuniad o reolwyr, beicwyr modur a chodwyr arian, ni fyddem yn gallu cynnig ein gwasanaeth; mae pob rhan yr un mor bwysig.

Mae croeso bob amser i aelodau newydd ac mae'r grŵp yn cwrdd fel arfer ar nos lau olaf y mis yng Nghlwb y Rheilffordd yn Aberystwyth, yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol eraill neu ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo'r elusen neu'n cyflwyno sicciau.

'D oes dim rhaid ichi fynd ar gefn beic modur i wneud gwahaniaeth yn lleol ychwaith; mae cyfle ichi wirfoddoli fel rheolwyr (cydlynw'r beicwyr modur ar y shifft yn ogystal â dosbarthu a chofnodi galwadau) a chodwyr arian, yn ogystal â beicwyr modur.

Sut gallwn ni wirfoddoli gyda Beicwyr Gwaed Cymru?

Evch i wefan beiciau gwaed Cymru: www.bloodbikes.wales/contact neu chwiliwch am grŵp 'Blood Bikes Wales, Aberystwyth' ar Facebook.

Mae gwasanaeth brys Beiciau Gwaed Cymru i'r GIG yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim ac yn cael ei ariannu'n llwyr drwy roddion gan y cyhoedd a nawdd. Dim ond trwy gefnogaeth hael y cyhoedd gallant barhau i wneud hyn ac achub bywydau ar hyd a lled Cymru. Evch i'w tudalen rhoddion a dangos eich cefnogaeth heddiw.

www.bloodbikes.wales/donate/

Haf yn Aberystwyth

Treuliodd Archana Bhat o Brifysgol Jammu yn India, bedwar mis yn ystod yr haf yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ar Leoliad PhD Newton Bhabha.

Nod rhaglen Leoliadau PhD Newton Bhabha yw dod â sectorau ymchwil wyddonol ac arloesi'r DU ac India at ei gilydd i ganfod atebion ar y cyd i'r heriau sy'n wynebu India o ran datblygiad economaidd a lles cymdeithasol.

Cafodd **Neuwyddion** **ABER** sgwrs ag Archana cyn iddi hedfan yn ôl i India ym mis Awst



Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o Aberystwyth?

Y mynyddoedd, y môr, yr haul a'r bobl hyfryd... roedd yn teimlo fel bod gartref. Dyma'r tro cyntaf imi fod oddi cartref am gyfnod mor hir ac mewn gwlad wahanol hefyd, ond fe wnaeth Cymru fy nhrin fel ei phlentyn ei hun.

Ni allaf ddisgrifio Aberystwyth mewn geiriau, a phe bawn i'n ceisio gwneud, ni fyddai gennyf ddigon o eirfa. Tawelwch, llonyddwch a phurdeb Aberystwyth yw'r prif atyniadau. Ar ôl diwrnod cythryblus, gallwch fynd i lan y môr a mwynhau clywed y tonnau a gadael i beldrau'r haul dawelu'r straen a'i newid yn belen o egni cadarnhaol.

Mae pobl Aberystwyth yn dda iawn ac yn barod i'ch helpu. Yr hyn rwy'n ei hoffi'n bennaf yw'r wên a gewch gan bawb, os ydyn nhw yn eich adnabod ai peidio. Roedd hyn wir yn cyffwrdd fy nghalon.

Gallwn ysgrifennu llyfr am fy mhrofiadau yn Aberystwyth. Hoffwn ddychwelyd yn y dyfodol a pherthyn i'r lle. Bydd gennyf atgofion annwyl iawn am y 4 mis a dreuliais yma.

Beth rydych yn ei astudio ar gyfer eich PhD?

Biotechnologydd Planhigion ydw i ac rwy'n gweithio i ddeall genomeg planhigion.

Yn fy ngwaith ymchwil ar gyfer fy noethuriaeth rwy'n gweithio ar lwybr apocarotenoid *Crocus sativus*, sy'n cael ei alw yn saffrwm fel rheol.

Mae stigmâu Crocus yn sgarlad oherwydd presenoldeb cyfansoddion bioactif (sydd hefyd yn cael eu galw'n apocarotenoidau) ac sy'n cael eu ffurfio oherwydd y llwybr biosyntheticig apocarotenoid.

Mae fy ngwaith yn canolbwyntio ar ddeall y llwybr hwn a defnyddio dulliau moleciwlaidd i gynyddu nifer yr apocarotenoidau yn y stigmâu.

Mae saffrwm, sy'n cael ei gynhyrchu'n bennaf yn Iran, Groeg, Moroco, India, Twrci a Sbaen, yn gnwd pwysig iawn ar gyfer meddygaeth a'r economi.

Yn ystod fy interniaeth yn Aberystwyth, rwyf wedi dysgu llawer o dechnegau biocemegol a moleciwlaidd y gallaf eu defnyddio yn fy ngwaith ymchwil.

Soniwch ychydig am beth wnaethoch chi yn ystod eich amser yn Aberystwyth.

Yn ystod fy amser yn Aberystwyth rwyf wedi gwneud llawer o waith ymchwil ac ymweld.

Yn broffesiynol, gweithiais gydag ysgolheigion eraill yn y labordy a oedd yn ddymunol iawn ac a wnaeth fy helpu pa bryd bynnag oedd angen. Roedd hyn yn wir am fy ngoruchwylwyr hefyd.

Yn ogystal ag astudio a gweithio, mwynheais hefyd y cyfleusterau yn y Ganolfan Chwaraeon, sy'n gwneud lles i'r meddwl a'r iechyd.

Cefais gyfle i ymweld â manau lleol fel Pen Dinas, Parc Natur Penglais, Cofeb Ryfel a Chastell Aberystwyth, Sŵ Borth, Craig Lais, Canolfan Fwydo'r Barcud Coch, Ceinewydd, Caerdydd, ac Aberaeron. Mwynheais hefyd Garnifal y Borth a Gŵyl Fwyd Aberystwyth.

Yn ystod y pedwar mis, ymwelais hefyd â Chaeredin a Llundain. Cefais gyfle gan y Cyngor Prydeinig i fynychu uwchgynhadledd yn San Steffan lle gwelais aelodau Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin wrth eu gwaith, oedd yn brofiad gwych.

Ar fy ffordd i'r labordy bob dydd, gwelwn Ben Dinas a'r haul yn machlud dros y môr - ni fyddaf yn anghofio'r golygfeydd bendigedig hyn.

Beth fydd yn dychwelyd gyda chi i India fel cofrodd o'ch amser yng Nghymru?

Byddaf yn mynd â rhan o Gymru (yn enwedig Aberystwyth) yn ôl gyda fi. Bydd Cymru bob amser yn rhan o fy nhaith drwy fywyd ac yn fy nghalon, ac rwyf wedi gwneud sawl ffrind da yma.

Yn broffesiynol, bydd cwlm cydweithredu yn dychwelyd gyda fi, a fydd o fudd i'r gymuned wyddonol ac i'r ddwy wlad.

Yn bersonol, bydd gennyf atgofion hyfryd o amser da gyda phobl yn Aberystwyth. Byddwn yn hoffi dychwelyd i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Ar ran fy ngwlad, mae croeso mawr i bob un ohonoch chi.... Croeso i India!

Gyda llawer o gariad a pharch,

Archana Bhat

Y diweddaraf am Fywyd Newydd i'r Hen Goleg

Yn Rhifyn 34 o *Newyddion*^{ABER} (Chwefror 2019), cafwyd adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan ar gynigion y Brifysgol i drawsnewid yr Hen Goleg yn ganolfan fyrlymus i addysg, diwylliant a menter

(www.aber.ac.uk/en/media/departmental/news/abernews/Aber-News---Chwefror-2019.pdf).



Mae'r prosiect bywyd newydd i'r Hen Goleg bellach wedi hen fagu traed, a chynlluniau prosiect manwl a chadarn a chaniatâd cynllunio wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar. Cafodd *Newyddion*^{ABER} air gyda Hayley Goddard o'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni (DARO), sy'n rhan o'r ymgyrch i godi arian i gefnogi'r Hen Goleg:

Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu?

Mae'r prosiect yn dibynnu ar gyllid allanol. Mae holl dîm DARO yn chwilio am gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru/UE, ymddiriedolaethau a sefydliadau, ac unigolion, yn cynnwys cyn-fyfyrwyr a chyfeillion y Brifysgol.

Mae'n hanfodol ein bod yn dangos i Gronfa Dreftadaeth y Loteri fod gennym gefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr a'r gymuned ehangach.

Wrth siarad â chyn-fyfyrwyr ar draws y byd am y prosiect, rydym wedi clywed pa mor bwysig yw'r adeilad eiconig hwn iddynt a pha mor frwd ydynt am gefnogi a diogelu ei ddyfodol i'r Brifysgol, yr ardal leol, a Chymru gyfan.

Ble rydym arni nawr?

Hyd yma, codwyd dros £1 miliwn gan unigolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau drwy roddion ac addewidion, yn cynnwys Sefydliad Wolfson ac Elusen Gwendoline a Margaret Davies.

Cynhaliwyd yr ymgyrch ffôn gyntaf i godi arian i Apêl yr Hen Goleg yn gynharach eleni. Codwyd bron i £100,000 dros gyfnod o dair wythnos gan alwyr o blith ein myfyrwyr yn siarad â chyn-fyfyrwyr o bedwar ban byd.

Ym mis Rhagfyr bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn penderfynu a fydd yn cyfrannu £9.7 miliwn arall. Bydd y Gronfa yn cymryd i ystyriaeth y gefnogaeth gan roddwyr unigol, ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Beth yw'ch cynlluniau nesaf ar gyfer codi arian?

Rydym wrthi'n paratoi llythyr apêl i godi arian i'w anfon at 15,000 a mwy o gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr ym mis Hydref. Mae Dhan, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a Tomos, Llywydd UMCA, yn ein helpu i gyflwyno manteision prosiect yr Hen Goleg i'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr.

Mae'r ail ymgyrch ffôn wedi'i threfnu ar gyfer gwanwyn y flwyddyn nesaf a bydd y gwaith codi arian yn parhau am o leiaf 3 blynedd i drawsnewid yr Hen Goleg erbyn ein pen-blwydd yn 150 oed yn 2022/23.

Rhwng popeth, mae'n amser prysur ar gyfer codi arian! Yr hyn sy'n ein cadw i fynd wrth godi arian yw gwybod ein bod yn rhan o apêl fydd yn newid bywyd cynifer o bobl, ac y gallwn, gyda help ein rhoddwyr arbennig, ddod â bywyd newydd i adeilad eiconig sy'n golygu cymaint i ni.

I ddysgu rhagor am y cynlluniau:

www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/future-plans

I roi i Apêl yr Hen Goleg:

<https://alumni.aber.ac.uk/appeal>

Os oes gennych syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn y gymuned leol, a chodi arian yn y gymuned, cysylltwch â ni drwy alumni@aber.ac.uk

Tyrchu i'r archifau

Mae'r Hen Goleg, sy'n rhan mor annatod o hanes ein Prifysgol, hefyd yn gartref i gasgliad rhyfeddol o ddogfennau archifol o'i hanes.

Ar y naill ochr i'r grisiau canolog wrth ddringo i Ystafell y Cyngor y mae perl cuddiedig ac ynddo gofnodion am bob elfen o fywyd y Brifysgol.

Mae'r silffoedd yn gorlifo'n llythrennol â deunyddiau, gan roi ymdeimlad hen ffaswn o gysylltiad corfforol uniongyrchol â gorffennol cyfoethog y Brifysgol ac â'r bobl a'i ffurfiodd.

Mae'n bosibl fod casgliadau arbennig mewn llawer o brifysgolion eraill yn hawlio ystafelloedd astudio penodol a mwy cywain, ond ni all dim gymharu'n llwyr â'r profiad y mae ein Harchifau Prifysgol ni yn ei gynnig. Ni all dim gymharu ychwaith â gwybodaeth anhygoel archifydd y Brifysgol, Julie Archer, am yr hyn sydd ynddynt. Mae gan Julie afael ryfeddol ar y casgliad, ac mae'n cynnig cymorth arbennig.

Tan i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ddechrau paratoi i ddathlu ei chanmlwyddiant (mae'r digwyddiadau cyhoeddus yn rhedeg tan ddiwedd y flwyddyn galendr hon), ni wyddwn dim oll am hyn.

Fel rhan o'r dathliadau, bûm wrthi'n ceisio olrhain gwreiddiau'r Adran a'i datblygiad wedi hynny. Mae hyn yn bwysig er mwyn cael gwell syniad o'n gorffennol ac o ddechreuadau'r ddisgyblaeth, ac er mwyn gwerthfawrogi'r posibilrwydd o weithredu fel sail i newid gwleidyddol yn fyd-eang wrth inni wynebu'r dyfodol.

Mae'n dra hysbys mai Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a waddolwyd gan David, Gwendoline, a Margaret Davies yn 1918, yw'r hynaf o'i bath yn y byd. Ond a allai'r archifau gynnig darlun mwy cyflawn o'r hyn a ysgogodd y sylfaenwyr, awgrymu sut derbyniodd y Brifysgol y ddisgyblaeth newydd hon a oedd, bryd hynny, yn anghyffredin, dangos sut mae'r Adran wedi gweithredu ar hyd y blynyddoedd, a chynnig ysbrydoliaeth ar gyfer dathliadau'r canmlwyddiant?

Mae'r archifau wedi cynnig hyn oll a llawer mwy.

Mae copi o lythyr o fis Tachwedd 1918 (y ddogfen hynaf y gwyddom amdani sy'n ymwneud â'r Adran) yn dangos y gallai Cadair Wilson fod wedi mynd i Rydychen yn hytrach nag Aberystwyth oni bai am fewnbwn y chwirydd Davies. Am wastraff fyddai hynny! Mae cofnodion Cyngor y Coleg yn dangos y brwdfrydedd wrth dderbyn y gwaddol, a luniwyd fel cofeb fwy i fwy na chant o fyfyrwyr y Brifysgol a fu farw yn y Rhyfel Mawr.

Mae adroddiadau deiliaid Cadair Wilson a chofnodlyfr y Pwyllgor Ymgynghorol o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd yn dangos faint mae rhai pethau wedi newid (teithiodd Charles K. Webster fwy na 40,000 o filltiroedd mewn blwyddyn i draddodi darlithoedd ar hyd a lled Cymru ac o amgylch y byd) a faint mae rhai pethau yn aros yr un peth (roedd ceisio denu myfyrwyr i brifysgol dda, ond pell o bobman yn her barhaol). Cafwyd








Julie Archer

y sbrydoliaeth o'r hen bosteri ar gyfer darlithoedd cyhoeddus. Ac mae papurau ymchwil, rhai ohonynt bellach yn derbyn nawdd gan Gyngor Cyllido Addysg Cymru, ar y gweill.

Wrth eistedd wrth ddesg fechan yng nghornel bellaf yr archifau, gallwch wneud ambell ddarganfyddiad gwyh ac annisgwyl a bydd yn briodol iawn i'r casgliad gael lle addas yn yr Hen Goleg wrth iddo gael bywyd newydd.

Jan Ruzicka

Darlithydd mewn Astudiaethau Diogelwch



Cael hyd i lawysgrif goll

Mae Cyfarwyddwr Cerdd Prifysgol Aberystwyth, Dr David Russell Hulme, wedi cael hyd i lawysgrif gerdd bwysig a gwerthfawr a oedd ar goll.

Rai blynyddoedd yn ôl, diflannodd cyfrol a oedd yn llawysgrifen y cyfansoddwr o sgôr lawn *Merrie England*, operetta gan y cyfansoddwr Eingl-Gymreig Edward German (1862 - 1936). Diflannodd o gartref y perchennog, Dr Terence Rees, yn y Trallwng. Roedd Dr Rees, casglwr a hanesydd theatr adnabyddus, o'r farn i'r gyfrol gael ei dwyn pan dorwyd i mewn i'w dŷ.

Ond, trwy wyrth, ymddangosodd y llawysgrif ar e-Bay yn ddiweddar. Er mor wael oedd y disgrifiad ohoni ac er nad oedd llun, fe wnaeth Dr Hulme adnabod y sgôr ar unwaith, a sicrhau cymorth yr heddlu i rwystro'r ocsiwn ar e-Bay a dod o hyd i'r gwerthwr.

Delw'r oedd y gwerthwr a oedd wedi dod o hyd i'r sgôr wrth glirio tŷ ac roedd e'n fwy na hapus i'w throsglwyddo.

"Roedd Dr Rees yn ffrind. Roeddwn gydag ef pan brynodd y sgôr yn Sotheby's yn 1988, felly roeddwn yn falch iawn o ddod o hyd i'r gyfrol goll hon," eglura Dr Hulme.

"Cynhyrwyd *Merrie England German* am y tro cyntaf yn *Theatr y Savoy* yn 1904. Daeth yn arbennig o boblogaidd, yn rhannol oherwydd bod yr opera yn atgyfnerthu'r chwedl am hwyliogrwydd Lloegr yn yr hen ddyddiau, a fu unwaith yn elfen gref iawn o'r ffordd roedd y Saeson yn ystyried eu hunain - rhywbeth sydd wedi ei danseilio ers tro erbyn hyn (chi'n cofio Lucky Jim?) - ond erioed wedi ei ddileu yn llwyr! Yn wir, mae'n debyg mai *Merrie England* oedd yr opera neu operetta Brydeinig o'r ugeinfed ganrif a berfformiwyd yn fwyaf aml yn ystod y ganrif ddiwethaf."

Ychydig cyn ei farwolaeth yn 2014, cyflwynodd Dr Rees ei gasgliad pwysig o lawysgrifau i'r Llyfrgell Brydeinig. Trosglwyddodd berchenogaeth y ddwy gyfrol o *Merrie England* - y gyfrol oedd ganddo o hyd, a'r gyfrol goll, pe bai'n dod i'r golwg. Ni chafwyd problem felly o ran berchenogaeth, ac mae'r gyfrol bellach wedi cael cartref newydd yn y Llyfrgell Brydeinig.

Meddai Dr Richard Chesser, Pennaeth y Casgliad Cerdd yn y Llyfrgell Brydeinig: "Rwyf wrth fy modd ein bod wedi dod



Terence Rees yn dal llawysgrif *Merrie England* ar ôl ei phrynu yn Sotheby's, 1988

o hyd i ail gyfrol sgôr lawn German o *Merrie England* Mae gan y Llyfrgell Brydeinig gasgliad enfawr o ddeunyddiau yn llawysgrifen cyfansoddwyr Prydeinig. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym wedi sicrhau sawl operetta gan Sullivan, German ac eraill, ac ymhlith y rhain mae *Merrie England* yn arbennig o bwysig. Mae Dr Hulme yn awdurdod ar lawysgrifau yn y maes hwn. Ef oedd un o'r ysgolheigion prin a welodd y gyfrol goll, ac fe wnaeth ei hadnabod ar unwaith o'r disgrifiad annigonol yn yr ocsiwn. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am weithredu mor gyflym a sicrhau bod y gyfrol a gweddill y sgôr yn dod yn ôl at ei gilydd."

Prosiect y Blwch Coch

Rhodddwyd Prosiect y Blwch Coch ar waith ar draws Campws Penglais yn ystod yr haf. Nod y prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â 'thlodi mislif'.

Sefydlwyd y prosiect ym mis Mawrth 2017 gan dri ffrind a oedd yn flin oherwydd bod rhai pobl ifainc yn colli'r ysgol oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio deunydd mislif angenrheidiol.

Nod y fenter gymunedol, ddielw hon, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr brwd ar


draws y DU, yw darparu deunydd mislif am ddim mewn ysgolion.

Credir mai Prifysgol Aberystwyth yw'r Brifysgol gyntaf i weithredu Prosiect y Blwch Coch.

Gellir dod o hyd i flychau plastig ailgylchadwy yn llawn deunydd mislif yn rhai o dai bach y menywod a'r dynion o amgylch Campws Penglais. Mae'r Brifysgol o'r farn y dylai deunydd mislif fod ar gael i bawb sydd eu hangen beth bynnag eu rhywedd neu fodd ariannol.

Mae'r deunydd mislif ar gael yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect y Blwch Coch ym Mhrifysgol Aberystwyth, ewch i: www.aber.ac.uk/en/equality/theredboxprojectataberystwythuniversity neu cysylltwch â Ruth Fowler, Swyddog Cydraddoldeb a Chyfathrebu, drwy ruf@aber.ac.uk



The Red Box Project

Fy ngwaith ymchwil

Enillodd Sonia Urbaniak, sy'n dod o Wlad Pwyl yn wreiddiol, radd BScEcon Busnes a Rheolaeth o Aber yn 2016. Ar ôl graddio, dechreuodd weithio yn amser llawn i'r Brifysgol yn ogystal ag astudio ar gyfer MSc mewn Rheolaeth a Marchnata, gan gwblhau'r radd eleni.

Cafodd **Neuwyddion** **ABER** sgwrs gyda Sonia am ei gwaith ymchwil Meistr.



Disgrifiwch eich gwaith ymchwil yn gryno

Nod fy ngwaith ymchwil oedd ymchwilio i agweddau at blastig untro ymhlith cwsmeriaid yn y sector bwydydd yn y DU.

Roeddwn am wybod, yn benodol, a yw cwsmeriaid yn poeni am ddeunydd pacio plastig untro ac a fyddent yn hoffi gweld llai ohono yn y siopau.

Ar ben hynny, roeddwn am wybod a fyddai o fantais neu anfantais i gwmnïau fel Tesco gymryd camau i leihau plastig untro, a faint o ddylanwad sydd gan gwsmeriaid.

Pam gwnaethoch chi benderfynu ymchwilio i'r pwnc hwn?

Ers "effaith David Attenborough" ar ôl i'r BBC ddarlledu *Blue Planet II* ar ddiwedd 2017, deuthum innau, fel llawer o bobl eraill, yn fwy ymwybodol o broblem llygredd plastig a'i effaith ar yr amgylchedd o'n cwmpas.

Gwnaeth fîm o ymchwilwyr, dan arweiniad Geyer (2017), ganfod bod y rhan fwyaf o'r 8.3 biliwn tunnell o blastig rydym wedi ei gynhyrchu hyd yma yn dal i fodoli yn yr amgylchedd ar ryw ffurf heddiw, ac mai 9% yn unig sy'n cael ei ailgylchu. Cefais fy syfrdanu wrth sylweddoli hyn.

Roedd plastig untro yn broblem benodol. Er gwaethaf y ffaith ei fod yn para ac yn anodd cael gwared arno, mae ei gost gynhyrchu isel yn golygu mai dyma sy'n cael ei ddewis yn aml ar gyfer deunydd pacio bwydydd a nwyddau bob dydd. Yn ôl 'Surfers Against Sewage', bwriedir 40% o'r plastig a gynhyrchir yn y byd i'w ddefnyddio untro.

Roeddwn yn teimlo bod yn rhaid imi wneud rhywbeth am y broblem. Yn ogystal â lleihau fy nefnydd personol o blastig untro, roeddwn am ei gysylltu â'm prosiect ymchwil Meistr, gan ddefnyddio fy ngwybodaeth farchnata. Diolch i'r drefn, roedd fy ngoruchwyliwr, Dr Ian Harris, yn cefnogi'r syniad.

Beth oedd canlyniadau eich gwaith ymchwil?

Roedd canlyniadau'r astudiaeth yn dangos bod cwsmeriaid Tesco yn poeni am ddeunydd pacio plastig untro, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn bwriadu prynu nwyddau heb ddeunydd pacio plastig untro.

Yn ddi-ddorol, dangosodd y gwaith ymchwil fod cwsmeriaid yn debygol o wario mwy gyda chwmnïau sy'n cymryd camau clir a gonest tuag at leihau deunydd pacio plastig untro, a gwario llai gyda'r cwmnïau sy'n methu â chymryd y camau a ddisgwyliwr. Mae hyn yn dangos yn glir ei bod o fantais i gwmnïau roi sylw i leihau'r defnydd o ddeunydd pacio plastig untro mewn siopau bwyd, gan y bydd o fantais i enw da ac elw'r cwmni.

Mae llawer o gwmnïau wedi gwneud hyn yn ddiweddar, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth, sy'n trefnu diwrnodau diblastig gan gyfyngu ar y gwerthiant o gynhwyswyr a chyllyll a ffyrac untro a hyrwyddo'r defnydd o gwpanau amldro.

Beth rhoddodd y mwyaf o foddhad i chi?

Roedd hi'n wych i ddefnyddio fy ngradd i gyfrannu at wella'r sefyllfa bresennol o lygru ein moroedd a'r argyfwng hinsawdd.

Gan i'r prosiect dderbyn un o'r ddwy brif wobwr ar gyfer Prosiectau Ymchwil Meistr yn yr adran, byddaf yn ceisio mynd ati i gyhoeddi rhai o'r canfyddiadau, gyda fy ngoruchwyliwr.

Yn bwysicaf oll, er hynny, rwy'n hapus fod canlyniadau'r astudiaeth yn rhywbeth i bob un ohonom ei ystyried a gweithredu arno. Mae nhw'n dangos bod gennym ninnau fel cwsmeriaid rym rheoli dros elw a gweithredoedd cwmni. Mae hyn yn golygu y bydd ein dewis i brynu nwyddau penodol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hyn fydd ar y silffoedd yn y siopau.

Mae rhai yn dadlau bod hyn yn pwyntio'r bys at gwsmeriaid, yn hytrach nag at gwmnïau. Ond, rwyf innau o'r farn mai clwstwr o unigolion yw'r corfforaethau mwyaf hyd yn oed, a bod rhai ohonynt yn unigolion sy'n gwneud y prif benderfyniadau. Trwy newid cyfeiriad meddwl unigolion, gallwn newid ymddygiad y cwmnïau mwyaf yn y pen draw.

Roedd hi'n galonogol i weld yn ein archfarchnad leol yn ddiweddar fod y silffoedd â bananas heb ddeunydd plastig o'u cwmpas yn wag, ond bod digon o fananas mewn bagiau plastig ar ôl. Efallai bod hyn yn dangos bod pobl yn fwy ystyrlon o'u dewisiadau a bod newid mewn cymdeithas yn digwydd. Gobeithiwn y gall y cwmnïau ddysgu o hyn.

Rwy'n dyfynnu Anna Lappé: "Bob tro y byddwch yn gwario arian, rydych yn bwrw pleidlais dros y math o fyd a ddymunwch". Mae hyn yn f'ysbrydoli i ystyried effaith fy ngweithredoedd fy hun.

Mannau gwefru e-feiciau a llochesi i feiciau

Mae gorsafoedd gwefru e-feiciau newydd a llochesi i feiciau wedi'u gosod ar Gampws Penglais yn rhan o gynllun ehangach i osod cyfleusterau o'r fath mewn gwahanol fannau yn Aberystwyth.

Mae dwy orsaf wefru newydd wedi'u gosod yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol a hefyd y tu cefn i Ganolfan y Celfyddydau. Mae cynlluniau ar y gweill i osod dwy orsaf arall ger y Porthordy wrth fynedfa Campws Penglais, a hefyd ger Fferm Penglais.

Mae'r cyfleusterau hyn yn rhad ac am ddim i bawb ac maent ar gael yn hwylus i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

Mae'r prosiect i osod llochesi beiciau sy'n cynnwys gorsafoedd gwefru e-feiciau yn Aberystwyth yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion gan ddefnyddio grant gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a chan weithio ar y cyd â'r Brifysgol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Dywedodd Dewi Day, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd yn y Brifysgol, "Diolch i'r gwaith gyda Chyngor Sir Ceredigion, mae'r ddarpariaeth parcio beiciau wedi gwella ac mae'r gorsafoedd newydd hyn i e-feiciau yn ychwanegu'n wych at gyfleusterau ein campws. Gall beicwyr naill ai dynnu'r batri o'u beic a'i osod i wefru yn ddiogel y tu mewn i'r orsaf neu gallan nhw gysylltu'r beic â'r orsaf a rhedeg y cebl gwefru i'r batri ar y beic."

Mae'r Athro Huw Jones o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn cymudo i'r gwaith ar e-feic bob dydd. Dywedodd: "Rwy'n caru teithio i'r gwaith bellach. Yn ddiweddar, trawsnewidiais hen feic hybrid gan ddefnyddio pecyn e-feiciau a brynais ar lein. Mae'n rhaid imi droi'r pedalau o hyd ond hanner yr amser mae'r daith yn ei gymryd imi ar yr e-feic o'i gymharu ag o'r blaen ac mae dringo brynau serth bellach yn teimlo fel beicio ar dir gwastad. Gallaf fwynhau'r golygfeydd yn well a dwi ddim mor boeth a chwyslyd. Gall fod yn anodd dyfalu faint o drydan sydd ar ôl yn y batri felly mae'r manau gwefru ar y campws yn golygu y gallaf ychwanegu ato."

Llun: Yr Athro Huw Jones yn yr orsaf wefru e-feiciau



Penodiadau

YR ADRAN SEICOLEG

Mae **Dr Trefor Aspden** wedi ymuno â'r Adran Seicoleg i ymgymryd â swydd Darlithydd. Derbyniodd ei Ddoethuriaeth o Brifysgol Bangor yn 2010. Ers hynny bu'n gweithio fel ymchwilydd ôl-ddoethurol yng Ngholeg Brenhinol Holloway, Prifysgol Llundain, ac wedyn yng Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL) lle'r oedd yn rheoli treialon ar therapi ymddygiad gwybyddol. Mae ei ddiweddordebau ymchwil yn cynnwys ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, therapïau siarad i drin gorbryder ac iselder, ac ansawdd bywyd. Yn UCL darlithiai Trefor ar y cwrs MSc ar y Gwyddorau Iechyd Meddwl ac mae wedi ennill Cymrodoriaeth Gyswllt yn gymhwyster dysgu yn ddiweddar.



ADRAN FFISEG

Mae **Dr Marianna Korsos** wedi ymuno â'r Adran Ffiseg yn ymchwilydd ôl-ddoethurol. Derbyniodd ei Doethuriaeth yn ddiweddar o Brifysgol Sheffield lle y datblygodd hi ddull newydd o ragfynegi fflachiadau heulol. Mae ei gwaith ymchwil presennol yn datgelu




digwyddiadau nodweddiadol unigol a geir cyn fflachiadau a chyn alldafladau mäs coronol sy'n digwydd yn y rhanbarthau gweithgar yn atmosffer isaf yr haul.

ATHROFA'R GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG

Mae **Dr Micael Andrade** wedi ymuno ag IBERS i fod yn Ddarlithydd Gwyddor Bwyd. Mae ei gefndir ym maes Peirianeg Bwyd a Chemeg, ac fe gafodd ei Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Reading yn 2018 yn y Gwyddorau Bwyd a Maeth. Yn Aberystwyth fe fydd yn gweithio ar y Rhaglen Dysgu o Bell uwchraddedig yn IBERS o dan BioArloesi Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.



Mae **Dr Joseph Cook** yn gymrawd ymchwil ôl-ddoethurol newydd yn IBERS. Bydd yn gweithio ar brosiect a ariennir gan NERC i nodweddu a meintio allforion microbau o rewloedd. Derbyniodd ei Doethuriaeth ym Mhrifysgol Sheffield ac mae wedi arwain prosiectau a ariannwyd gan Rolex,



Microsoft a National Geographic. Ei brif ddiweddordeb yw pontio rhwng cyfrifiadureg a gwyddor yr amgylchedd, yn enwedig drwy ddefnyddio data o ddronau a lloerennau.

YR YSGOL ADDYSG

Mae **Dr Delyth Jones** ymuno wedi â'r Ysgol Addysg yn ddiweddar i fod yn Diwtor Cyswllt â'r Brifysgol i leithoedd Modern ar y cwrs TAR newydd. Yn ei Doethuriaeth, o Brifysgol Caerdydd, disgrifwyd galluoedd cyfathrebu plant o aelwydydd Saesneg sy'n mynd i ysgolion Cymraeg. Bu hi'n athrawes a Phennaeth leithoedd Modern mewn ysgol uwchradd am 19 o flynyddoedd.



Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth Penodiadau Adran



SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR

Penodwyd **Yr Athro Colin McInnes** yn Ddirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesedd a bydd yn cychwyn ar y 1af o Hydref 2019 am gyfnod o bedair blynedd. Mae Colin yn raddedig o Brifysgol Aberystwyth

a chanddo gadair bersonol yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Ef oedd Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil, sydd yn gyfrifol am barato'r Brifysgol ar gyfer REF2021. Mae ei ymchwil yn rhyngdisgyblaethol ei natur, wrth iddo ganolbwyntio ar y berthynas rhwng gwleidyddiaeth ryngwladol ac iechyd byd-eang. Rhwng 2008 a 2018 roedd yn ddeilydd Cadair UNESCO mewn HIV / AIDS a Diogelwch Iechyd, y gadair UNESCO gyntaf i gael ei dyfarnu i Gymru. Mae wedi ennill grantiau ymchwil oddi wrth gynghorau ymchwil yn y DU ac Ewrop, o sefydliadau elusennol ac o ddiwydiant. Yn 2018 derbyniodd y wobwr gyntaf 'Gwobr Cyflawniad Arbennig' yng Ngwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru.

ADRAN ASTUDIAETHAU THEATR, FFILM A THELEDU

Mae cyfnod **Mr Simon Banham** fel Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu wedi ei ymestyn hyd at Gorffennaf 2020. Ymunodd Simon â'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ym Medi 1999 ac mae bellach yn Ddarllenwydd mewn Senograffeg a Dylunio Theatr.



ADRAN DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR

Mae **Dr Sarah Davies** wedi'i phenodi fel Pennaeth Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeear am dymor pum mlynedd. Ymunodd Sarah â'r Adran yn 2002 fel darlithydd Daearyddiaeth Ffisegol a Gwyddoniaeth

Amgylcheddol, a'i phenodi'n Ddarllenwydd yn 2014.

ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

Penodwyd **Dr Patrick Finney** fel Pennaeth dros dro yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol am gyfnod o flwyddyn hyd at mis Awst 2020. Ymunodd Patrick â'r Adran yn 2002 ac mae bellach



yn Ddarllenwydd mewn hanes rhyngwladol. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddau faes: hanes rhyngwladol yr ugeinfed ganrif, gan gyfeirio'n benodol at y cyfnod rhwng y ddau ryfel ac at faterion theori a dull; a chof diwylliannol gwrthdaro, yn enwedig mewn perthynas ag etifeddiaeth yr Ail Ryfel Byd. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Hanes Frenhinol, golygydd y cylchgrawn *Rethinking History*, ac yn Gadeirydd grŵp British International History.



ADRAN SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

Ailbenodwyd **Dr Louise Marshall** fel Pennaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol am dymor arall. Dechreuodd Louise ar ei gyrfa academiaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2006 ar ôl cwblhau

ei PhD yn 2004. Ymgymerodd â rôl Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig ar gyfer Athrofa Llenyddiaeth, leithoedd a'r Celfyddydau Creadigol (ALICC) yn 2013 ac fe'i phenodwyd am y tro cyntaf yn Bennaeth Adran yn 2014.

ADRAN MATHEMATEG

Ailbenodwyd **Yr Athro Simon Cox** fel Pennaeth yr Adran

Mathemateg am dymor arall. Ymunodd Simon â'r Adran fel Darlithydd yn 2005. Mae'n Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a'r Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiaid, yn ogystal â Chyd-Gyfarwyddwr y Sefydliad Mecaneg Hylifau Gwrth-Newtonaidd. Mae ei ymchwil yn ymwneud â'r fathemateg sy'n sail i strwythur a llif swigod ac ewyn, gan gynnwys eu cymhwysiad i adfer olew a thriniaethau gwythiennau faricos.



ADRAN SEICOLEG

Ailbenodwyd **Yr Athro Nigel Holt** fel Pennaeth yr Adran Seicoleg am dymor arall. Ymunodd Nigel â'r Adran fel Uwch Ddarlithydd yn 2012 a bryd hynny fe weithiodd ar yr achrediad llwyddiannus gan Gymdeithas Seicoleg Prydain. Mae'n parhau â'i swydd fel


Pennaeth Adran am ail dymor ac mae'n falch iawn o fynd i'r afael a rai o'r datblygiadau a'r newidiadau cyffrous mewn Seicoleg yn y blynyddoedd i ddod.



Obituaries

Alun Eirug Davies

Graddiodd Alun o Brifysgol Aberystwyth yn 1954, lle bu'n astudio Economeg. Yna, yn 1968 dyfarnwyd gradd MA iddo am ei draethawd 'Poverty and its treatment in Cardiganshire, 1750-1850'. Ymunodd â staff Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn 1961 fel



Catalogydd Cynorthwyol yn Llyfrgell y Brifysgol. Cafodd ei ddirchafu'n Brif Gatalogydd ac Is-Lyfrgellydd yn 1963 ac yna'n Is-Lyfrgellydd Hŷn yn 1980, gan ddod yn y pen draw yn Ddirprwy Lyfrgellydd dan William Dieneman. Bu Alun yn gweithio yn y llyfrgell am 36 mlynedd, gan ymdeol yn 1997. Roedd hefyd yn awdur ac yn olygydd. Cyhoeddodd gofiant i'w dad, T. Eirug Davies, ynghyd â chyfrol o'i farddoniaeth. Cyhoeddodd hefyd nifer o lyfryddiaethau.

Anna Evans (1973-2019)

Bu Anna'n astudio Addysg a Chelfyddyd Gain yn Aberystwyth, gan raddio yn 2009. Roedd llawer o bobl yn adnabod Anna drwy ei gwaith gydag Amgueddfa Ceredigion a'r Comisiwn Brenhinol, a thrwy ei chysylltiadau â chwmnïau theatr lleol, ei cherddoriaeth, a'i phrosiectau celf yn y gymuned. Yn ddiweddar bu'n gweithio yng Nghanolfan y Celfyddydau ar y prosiect 'Cartref' a ariannwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn ardal Tregaron. Roedd gan Anna ddealltwriaeth brin o sut i fynd ati i hwyluso prosiectau celf cymunedol, ac roedd yn sylweddoli mai'r allwedd i weithio'n llwyddiannus yn y gymuned yw gwrando ar yr hyn y mae ar bobl ei eisiau a'u helpu i wireddu eu huchelgais. Roedd gan Anna'r ddawn i helpu i roi llais i bobl drwy eu celfyddyd, a rhoddodd yr hyder i bobl fynd amdani. Roedd Anna'n berson diymhongar, a byth yn chwennychu sylw - ffocws pob prosiect i Anna oedd y bobl hynny yr oedd hi'n gweithio gyda hwy. Mae gŵr Anna, Huw, yn aelod ffyddlon o dîm ystadau'r Brifysgol ers blyneddau lawer, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf iddo ef a'i deulu.



Dai Hides (1939-2019)

Ymunodd Dai (David) Hides, cyn-Bennaeth Bridio Planhigion Gogerddan, â Bridfa Blanhigion Cymru fel technegydd yn y Grŵp Cynhyrchu Hadau cyn mynd ymlaen i gael gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Bangor. Bu'n Bennaeth ar y Tîm Bridio Planhigion Porthiant a Chynhyrchu Hadau yn niwedd y 1980au, a chwaraeodd ran ganolog wrth feithrin y bartneriaeth â Germinal Holdings, sef y partner masnachol sy'n marchnata'r amrywiaethau porthiant sy'n cael eu bridio yng Ngogerddan ledled y byd. Roedd ei ymroddiad i fridio planhigion porthiant ac i bwysigrwydd bridio amrywiaethau o blanhigion a

fyddai'n llwyddiannus yn fasnachol ar sail y wyddoniaeth yng Ngogerddan yn holl bwysig i'r berthynas hon. Efallai mai gwaith datblygu a masnacheiddio'r porfeydd "ABER" sy'n uchel o ran eu siwgr, o dan ei oruchwyliaeth ef, yw'r enghraifft orau o'r dull hwnnw o weithio.

Yr Athro William Jeremy Jones (1935-2019)

Roedd yr Athro William Jeremy Jones yn gyn-Bennaeth yr Adran Gemeg. Cymro Cymraeg o Landeilo oedd yr Athro Jones ('Bill' i'r rheini oedd yn ei adnabod yn fyfyrwr, ond 'Jeremy' i'r rhai a ddaeth i'w adnabod yn ddiweddarach), a daeth i Aberystwyth yn 1953 i astudio Cemeg. Enillodd ei radd BSc yn 1956 ac yna MSc yn 1958, cyn cael doethuriaeth ym maes sbectrosgopeg o Goleg y Drindod, Caergrawnt yn 1962. Wedi dwy flynedd fel cymrawd ymchwil ôl-ddoethurol yng Nghyngor Ymchwil Cenedlaethol Canada yn Ottawa, fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran Cemeg Anorganig Caergrawnt a chafodd gymrodoriaeth ddysgu yng Ngholeg y Drindod. Yn y 1970au, cafodd Bill gynnig sawl cadair prifysgol ar sail ei hanes ymchwil cadarn, ond gwrthododd bob un hyd nes iddo gael cynnig swydd Pennaeth yr Adran Gemeg yn Aberystwyth yn 1978. Bu Bill yn Bennaeth ar yr Adran hyd nes ei chau yn 1988. Yna bu ganddo Gadair mewn Cemeg yn Abertawe, ac yn 1990 daeth yn Ddeon Gwyddoniaeth yno, swydd y bu ynddi tan iddo ymdeol.

Dr C Roy Lewis

Ymunodd Dr C. Roy Lewis, cyn-Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth, â staff yr adran fel darlithydd yn 1968, ar ôl iddo gwblhau ei astudiaethau israddedig ac uwchraddedig yno. Ac yntau'n arbenigo ar ddaearyddiaeth hanesyddol drefol, bu'n gweithio'n agos â'r Athro Harold Carter, a oedd ymhlith y bobl amlycaf ym maes ymchwil daearyddiaeth drefol. Canolbwyntiai ymchwil unigol Roy ar esblygiad hierarchaethau trefol yng Nghanolbarth Cymru, ac wedi hynny astudiodd ddatblygiad trefol Casnewydd a'r mewnfudo o lwerddon i Gaerdydd yn y 19eg ganrif. Bu Roy'n Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth o 1986 i 1992, a hefyd yn Ddeon ar Gyfadran y Celfyddydau. Ymdeolodd yn 1997, ond daliodd ati i ddysgu ei gwrs poblogaidd ar ddaearyddiaeth hanesyddol drefol tan y flwyddyn 2000. Yn ôl un o'i gydweithwyr yn ADGD, yr Athro Mark Whitehead: "Roy oedd hoff ddarlithydd pawb, fwy na heb. Gyda'i acen Sir Benfro bert a'i gymeriad addfwyn, roedd ei ddarlithoedd yn wirioneddol gyfareddol. Roedd Roy yn academydd eithriadol, ac roedd ef a'i synnwyr digrifwch gwych a'i natur drugarog yn ymgorfforiad o'r gwerthoedd y mae'r adran yn eu harddel hyd heddiw."



Arddangosfeydd

Oriel yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr.

Ar Agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 10yb tan 5yp. Mynediad am ddim.



Stuart Pearson Wright: Half Boy

7 Hydref - 22 Tachwedd

Yn 1975 cafodd yr arlunydd ei genhedlu drwy ffrwythloni gan roddwr anhysbys. Nid oes modd iddo ganfod hunaniaeth ei dad a, thrwy hynny, ddod o hyd i'w hunaniaeth ei hun. Mae'r gweithiau yn yr arddangosfa hon yn ymgais i ail-greu ei blentyndod er mwyn gwneud rhyw synnwyr o'r teimlad hwn o anghyflawnder.


'Half Boy and Half Sister' gan Stuart Pearson Wright, 2018 (Olew, gwllân dafad, pren sebra, weiren, a chyfryngau cymysg ar liain)

Flora McLachan: Yng Nghoedwigoedd y Nos

7 Hydref - 22 Tachwedd

Yn yr arddangosfa hon o'i hysgythriadau a'i lithograffau, mae Flora McLachlan yn mynd â ni i goedwig fieri'r dychymyg, drwy'r gwastraff gwyllt a'r llwyni pigog mewn ymgais i gael cip ar yr hydd gwyn annaliadwy.

'Into the Forest: the Witch's Hut' gan Flora McLachan [ysgythriad, 2019]



Simon Piere: Shy Green

9 Rhagfyr - 7 Chwefror

Paentiadau o Oleuni'r Gogledd a gwrthrychau eraill yr Arctig.

'Northern Lights' gan Simon Piere [llun dyfrlliw, 2019]

John Duffin: Prints and paintings

9 Rhagfyr - 7 Chwefror

Delweddau o'r amgylchfyd trefol wedi'u dylanwadu gan ffilmiau noir a nofelau graffig.

'Bar Italia' gan John Duffin [ysgythriad, 2018]



Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth



Eye of the Storm

Theatr na nÓg a Theatr y Grand Abertawe yn cyflwyno

7.30yh, Nos Wener 25 Hydref

2.30yp + 7.30yh, Nos Sadwrn 26 Hydref

£14 (£10)

Y Sioe orau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc - Gwobrau Theatr Cymru 2018

Dewch i gwrdd ag Emmie Price.

Bu'r 5 mlynedd ddiwethaf yn rhai stormus iddi. Mae ei byd yn cynnwys edrych ar ôl ei mam, sy'n dioddef o anhwylder deubegynol, dilyn diddordeb angerddol mewn corwyntoedd a gwneud yn sicr ei bod yn llwyddo yn yr ysgol. Ond, gwyr Emmie, un diwrnod y bydd popeth yn newid. Un diwrnod, mi fydd hi'n dilyn stormydd... yn America.

Pan fydd cyfle'n codi i dderbyn bwrsari i astudio yn UDA, a all hi gadw'i lle ar y cwrs ac ennill y gystadleuaeth STEM gyda'i dyfais newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy?

Mae Theatr na nÓg, sydd wedi ennill lluo o wahanol wobrau yn cyflwyno drama gerddorol wreiddiol sy'n siŵr o gyfareddu'r galon a'r meddwl. Lleolir y ddrama yng Nghymoedd Cymru ac mae iddi gerddoriaeth fywiog, sy'n tynnu ar elfennau Americana gan yr enillydd Gwobrau Grammy, Amy Wadge (*Thinking Out Loud* gydag Ed Sheeran, *Un Bore Mercher*) ac sydd yn cael ei pherfformio'n fyw, ar lwyfan gan gast o 8 o actorion a cherddorion dawnus.

Mae'r digwyddiad theatrig hwn llawn dewrder, penderfyniad a charedigrwydd yn siŵr o ysbrydoli oedolion o bob oed a theuluoedd sydd â phlant 8+ oed.

Nodwch ei fod yn gynhyrchiad Saesneg ei iaith.

Chicago Blues Brothers

8pm, Nos Fercher 18 Rhagfyr / Wednesday 18 December

£24 (£20)

Yn syth o'u hymddangosiad cyntaf yn y West End a pherfformiadau ledled y byd, mae'r Chicago Blues Brothers yn dod â 2019 i ben gyda CHLEC! Yn fywiog, yn ddisglair ac yn llawn hwyl a sbri, maent yn benderfynol o roi i chi sioe Nadolig fythgofiadwy a fydd yn eich cael yn clapio nes bod eich dwylo'n brifo, yn canu nes bod eich llais yn gryg ac yn dawnsio nes bod eich traed wedi blino mewn parti ar-lwyfan na fedrwwch fforddio ei fethu!

Gwnewch yn siŵr eich bod yn codi rhaglen Canolfan y Celfyddydau ar gyfer tymor yr hydref, sydd hefyd ar gael ar y wefan:

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy

Neil Oliver - The Story of the British Isles in 100 Places

7.30yh, Nos Fercher 13

Tachwedd

£23.50

Ganwyd Neil i garu Prydain Fawr. Yn ystod ei 20 mlynedd yn teithio i bob cornel, ac yn ystod fflmio 'Coast' i BBC2, mae o wedi syrthio mewn cariad am yr eildro. Mae'r hanes dynol sydd yma'n filiwn mlwydd oed, ac yn dal i fynd. Mae'r heddwch hawdd, goddefgar wedi bod yn anodd ei ennill ac mae'r llefydd mae Neil wedi gweld wedi rhoi iddo olygfa unigryw a dealltwriaeth o hanes Prydeinig.

Clywch yn ei arddull doniol a diddanol beth mae hyn i gyd yn golygu iddo fo, a pham mae'n rhaid i ni anwylo a dathlu ein gwledydd rhyfeddol.

Catrin Finch a Cimarrón

Cynhyrchiad Theatr Mwldan

8pm, Nos Fercher 29 Ionawr / Wednesday 29 January

£22 (£18)

Cyfle prin i weld cydweithrediad byd-eang gwfreiddiol. Yn ôl yn 2007, cyfarfu'r delynores Gymreig Catrin Finch â Cimarrón y band joropo o Golombia a chychwyn ar daith gyffrous o Gymru, cydweithrediad a ailadroddwyd yn 2009 a 2010. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae Catrin a Cimarrón yn cwrdd eto i deithio'r DU.

Mae Catrin Finch yn un o delynorion blaenllaw'r byd, y mae ei gyrfa wedi cynnwys perfformiadau unigol gyda cherddorfeydd blaenaf y byd, a chydweithrediaid gyda rhai o'r artistiaid cerddoriaeth byd gorau, gan gynnwys Toumani Diabate a Seckou Keita y chwaraewr kora o Senegal.

Mae Cimarrón, grŵp 6 darn a enwebwyd am Grammy yn perfformio cerddoriaeth ddawns joropo o wastatiroedd magu gwartheg yr Orinoco, wedi a gwreiddio yn ddwfn mewn traddodiad a diffinnir gan etifeddiaeth gymysg mestizo o Affrica, Sbaen a diwyllianau brodorol. Wedi ei arwain gan y telynor a'r cyfansoddwr Carlos Rojas, mae Cimarrón yn creu cerddoriaeth wyllt, anystywallt sy'n cynnal yr ysbryd rhydd sydd i'w ganfod yn un o ardaloedd mwyaf naturiol y byd. Yn sionc ac yn rymus, dyma i chi gerddoriaeth sydd â chanu angerddol, dawnsio stomp rhyfeddol a meistrolaeth offerynnol danbaid y llinynnau ac offerynnau taro.

Cimarrón. Llundun gan Angela Vives

